INSMAR018

Rheoli portffolio cynhyrchion neu wasanaethau i barhau i fod yn gystadleuol

Trosolwg

Mae'r safon hon yn ymwneud â rheoli portffolio o gynhyrchion neu wasanaethau i barhau i fod yn gystadleuol. Mae'n cynnwys casglu data am berfformiad a'i ddadansoddi i nodi tueddiadau ac enillion ar fuddsoddiad. Rydych yn asesu cyfran y farchnad ar gyfer cynnyrch neu wasanaeth a'r cam yng nghylch bywyd y mae cynnyrch penodol wedi'i gyrraedd. Rydych hefyd yn asesu'r opsiynau ac yn gwneud argymhellion ar gyfer rheoli'r portffolio. Rydych yn cytuno ar gynlluniau gyda rhanddeiliaid ac yn eu gweithredu, gan fonitro a gwerthuso perfformiad yn erbyn y meini prawf a'u hadolygu i ymateb i newidiadau yn y farchnad. Mae'r safon ar gyfer gweithwyr marchnata proffesiynol sy'n rheoli portffolios cynhyrchion neu wasanaethau er mwyn parhau i fod yn gystadleuol.

Meini prawf perfformiad

Rhaid i chi allu:

1. casglu data am berfformiad ar gyfer cynhyrchion neu wasanaethau
2. dadansoddi data am berfformiad i nodi tueddiadau ac enillion ar fuddsoddiad
3. asesu cyfran y farchnad o gynhyrchion neu wasanaethau i nodi tueddiadau cysylltiedig
4. asesu'r cam yng nghylch bywyd y mae'r cynhyrchion wedi'i gyrraedd
5. adolygu'r sianeli dosbarthu a'r polisïau prisio
6. rhagweld twf posibl mewn gwerthiant yn y dyfodol a chyfran y farchnad
7. asesu'r opsiynau a chyfiawnhau argymhellion ar gyfer rheoli'r portffolio
8. cyflwyno argymhellion ar gyfer rheoli'r portffolio i randdeiliaid
9. cytuno ar gynlluniau gyda chamau gweithredu ac amserlenni ar gyfer rheoli'r portffolio gyda rhanddeiliaid
10. cytuno ar gyllideb ar gyfer rheoli'r portffolio gyda rhanddeiliaid
11. gweithredu'r cynllun y cytunwyd arno ar gyfer rheoli'r portffolio
12. datblygu meini prawf gwerthuso i fesur llwyddiant
13. cytuno ar y meini prawf gwerthuso gyda rhanddeiliaid
14. monitro perfformiad cynhyrchion neu wasanaethau yn erbyn cynlluniau y cytunwyd arnynt
15. gwerthuso perfformiad cynhyrchion neu wasanaethau yn erbyn meini prawf y cytunwyd arnynt
16. monitro ac asesu effaith gweithgareddau'r rhai sy'n cystadlu yn eich erbyn
17. diwygio cynlluniau i ymateb i weithgareddau'r rhai sy'n cystadlu yn eich erbyn
18. dilyn y gofynion cyfreithiol, rheoliadol a moesegol sy'n gysylltiedig â rheoli cynhyrchion neu wasanaethau

Gwybodaeth a dealltwriaeth

Mae angen i chi wybod a deall:

1. y dulliau casglu a dadansoddi data perfformiad
2. sut i nodi tueddiadau wrth ddadansoddi data perfformiad
3. pwysigrwydd enillion ar fuddsoddiad wrth ddadansoddi data perfformiad
4. cylch oes y cynnyrch a sut i asesu pa gam y mae cynnyrch wedi'i gyrraedd
5. y technegau a ddefnyddir ar gyfer rhagweld twf mewn gwerthiant
6. y technegau a ddefnyddir ar gyfer rhagweld enillion ar fuddsoddiad a chyfran o'r farchnad
7. y ffactorau i'w hystyried wrth adolygu'r sianel ddosbarthu a'r polisi prisio
8. sut i ddatblygu cynlluniau ar gyfer rheoli portffolio
9. y rhanddeiliaid sy'n ymwneud â rheoli cynhyrchion neu wasanaethau a phryd i ymgynghori â nhw
10. y gwahanol strategaethau ar gyfer rheoli portffolio ac ym mha amgylchiadau y gallai'r rhain fod gael eu ffafrio
11. sut i weithredu, monitro a gwerthuso perfformiad cynhyrchion a gwasanaethau yn erbyn meini prawf y cytunwyd arnynt
12. sut i fonitro ac asesu gweithgareddau'r rhai sy'n cystadlu yn eich erbyn a'u heffaith bosibl
13. y mathau o gamau gweithredu a allai fod yn angenrheidiol i liniaru effaith gweithgareddau'r rhai sy'n cystadlu yn eich erbyn a nodi sut i benderfynu pryd mae angen y rhain
14. y gofynion cyfreithiol, rheoliadol a moesegol sy'n gysylltiedig â rheoli cynhyrchion neu wasanaethau

INSMAR018

Rheoli portffolio cynhyrchion neu wasanaethau i barhau i fod yn gystadleuol

Datblygwyd gan	Instructus
Fersiwn rhif	1
Dyddiad cymeradwyo	Chwefror 2021
Indicative Review Date	Mawrth 2026
Dilysrwydd	ArHynOBryd
Statws	Gwreiddiol
Sefydliad cychwynnol	Instructus
RCU gwreiddiol	CFAMAR22
Galwedigaethau perthnasol	Marchnata a Gwerthiant; Rheolwr Marchnata a Gwerthu; Cydymaith Marchnata; Gweithwyr Proffesiynol Cyswllt Marchnata; Swyddog Marchnata
Cyfres/Set	Marchnata
Geiriau Allweddol	Marchnata, gwerthu, rheoli marchnata, ymchwil i'r farchnad, hysbysebu, cysylltiadau cyhoeddus